Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mai 2015

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiadau A ac C, ac mae'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiadau B a D.

## Cefndir

*Cofrestru a Datgan Buddiannau*

3. Mae adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestru buddiannau'r Aelodau a bod y gofrestr honno'n cael ei chyhoeddi a'i bod ar gael i'r cyhoedd. Nodir y gofynion penodol ar gyfer Cofrestru Buddiannau'r Aelodau yn Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 y Cynulliad. Ategir gofynion y Rheolau Sefydlog gan y 'Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau eraill Aelodau' (y Canllawiau), a gaiff eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Os bydd Aelod Cynulliad yn methu â chofrestru buddiannau yn gywir o dan Reol Sefydlog 2, gall hynny fod yn drosedd o dan Adran 36(7) o'r Ddeddf. Yn unol â Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau "oruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau... a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnodion, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch". Yn unol â'r cylch gwaith hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am baratoi a chynnal a chadw'r Canllawiau, ac am gynnig unrhyw newidiadau arfaethedig i'w cymeradwyo gan y Cynulliad.

4. Yn 2001, comisiynodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad adolygiad cyffredinol o gyfundrefn Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd gan yr Athro Diana Woodhouse o Brifysgol Oxford Brookes. Roedd yr adolygiad hwn a'i argymhellion yn sail i'r rheolau presennol ar Gofrestru a Datgan, yn ogystal â Chod Ymddygiad yr Aelodau a'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau pellach i'r rheolau ynghylch cofrestru ers i Reol Sefydlog 5 gael ei gytuno yn 2006 – Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau.

5. Ar 9 Gorffennaf 2013, cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylai'r Comisiynydd Safonau, fel rhan o adolygiad parhaus o weithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â safonau, ymgymryd â darn o waith ar y Rheolau Sefydlog, y Cod Ymddygiad a'r canllawiau cysylltiedig sy'n

ymdrin â Buddiannau Cofrestradwy a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor yn y maes hwn.

6. Aeth y Comisiynydd ati i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad, y Llywydd, staff Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol, a lluniodd adroddiad yn cynnwys nifer o newidiadau arfaethedig, a drafodwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 1 Gorffennaf 2014.

7. Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar nifer o argymhellion i newid y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru buddiannau. Nodir manylion y cynigion yn ei adroddiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a osodwyd ar 8 Hydref 2014.

8. Gan fod y Pwyllgor o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni nifer o'i gynigion fyddai drwy newid y Rheolau Sefydlog, trafododd y Rheolwyr Busnes argymhellion y Pwyllgor yn eu cyfarfodydd ar 21 Hydref ac 11 Tachwedd 2014, a chytunwyd mewn egwyddor ag argymhellion y Pwyllgor.

*Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau*

9. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Llywydd ar 9 Hydref 2014 yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried diwygio Rheol Sefydlog 22, er mwyn cynnwys darpariaeth ar gyfer ethol eilydd i'r pwyllgor a all gymryd rhan wrth ystyried unrhyw fater os na chaiff aelod o'r pwyllgor gymryd rhan. Cynigodd y Cadeirydd hefyd ymestyn yr amgylchiadau lle na allai aelod gymryd rhan wrth ystyried unrhyw fater y tu hwnt i'r achosion hynny pan fo'r aelod yn destun cwyn, i gynnwys achosion pan fo'n gysylltiedig â chwyn mewn rhyw ffordd.

10. Cytunodd y Rheolwyr Busnes â'r cynnig hwn mewn egwyddor yn eu cyfarfod ar 14 Hydref 2014, gan gytuno i ystyried y newid arfaethedig ochr yn ochr â'r cynigion mewn perthynas â chofrestru a datgan buddiannau.

*Ystyried Gwelliannau Drafft*

11. Yn eu cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2014, trafododd y Rheolwyr Busnes welliannau drafft manwl i'r Rheolau Sefydlog, gan gytuno i ymgynghori â'u grwpiau ynghylch y cynigion. Yn y cyfamser, cynigodd y Comisiynydd Safonau gyfarfod â grwpiau'r pleidiau i drafod y newidiadau arfaethedig. Dychwelodd y Pwyllgor Busnes i'r pwnc yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2015, pan ystyriodd y Rheolwyr Busnes y newidiadau drafft yn sgil y trafodaethau a gafwyd â'r Comisiynydd Safonau, gan gytuno â'r newidiadau drafft mewn egwyddor.

12. Yn dilyn hynny, ysgrifenodd y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i gadarnhau a oedd y newidiadau arfaethedig yn cydymffurfio â bwriad y Pwyllgor a'r Comisiynydd. Cadarnhaodd y Pwyllgor mai dyna oedd yr achos, gan gymeradwyo newidiadau arfaethedig y Pwyllgor Busnes.

**Cynigion ar gyfer newid Rheolau Sefydlog**

*Datgan Buddiannau Cofrestradwy ar Lafar*

13. Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 2.7 yn gweithredu argymhelliad 12 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

14. Ym marn y Comisiynydd, mae'n bosibl bod y diffiniad presennol yn rhy gyfyngedig, ac yn atal y cyhoedd, yn anfwriadol, rhag cael gwybod am fuddiannau y dylid eu datgelu. Awgrymodd newid y prawf o ran perthnasedd i fantais "a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol", gan y byddai hynny'n cwmpasu achosion lle y mae Aelod yn rhan o grŵp lleiafrifol a fyddai'n cael budd o ddarn penodol o ddeddfwriaeth e.e. landlord yn trafod ac yn pleidleisio ar reoliadau rhentu.

15. Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn cynnig diwygio yr is-bennawd cyn Rheol Sefydlog 2.6 er mwyn gwahaniaethu rhwng y mathau hyn o ddatganiadau sy'n ymwneud â buddiannau cofrestradwy, a'r categori

newydd o ddatganiadau llafar ar fuddiannau perthnasol sy'n cael eu cyflwyno i Reolau Sefydlog 13 a 17 o ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor.

*Cytundebau ar gyfer Darparu Gwasanaethau*

16. Mae'r cynnig i ddileu Rheolau Sefydlog 2.12 a 2.13 yn y drafftiau yn gweithredu argymhelliad 9 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Nododd y Comisiynydd Safonau nad oes unrhyw gofrestriadau wedi'u gwneud o dan y Rheol Sefydlog hon hyd yma, a hefyd fod hon yn Rheol Sefydlog ddiangen, gan y byddai unrhyw gytundeb o'r fath yn gofrestradwy o dan benawdau eraill ym Mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2.

*Cofrestru Cyflogaeth y mae Plentyn Dibynnol yn cael Tâl amdano*

17. Mae dileu'r geiriau ym mharagraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn gweithredu argymhelliad 1 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ddileu'r gofyniad i gofrestru cyflogaeth y mae plentyn dibynnol yn cael tâl amdano. Nid yw'r gofyniad i gofrestru buddiannau ariannol eraill plentyn dibynnol wedi newid.

18. Nododd y Comisiynydd mai'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r unig ddeddfwrfa yn y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru cyflogaeth plant yr Aelodau. Yn ei adroddiad, cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad y dylid dileu'r angen i gofrestru cyflogaeth y mae plentyn dibynnol yn cael tâl amdano fel buddiant cofrestradwy er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd a diogelu rhag amhariad diangen i fywydau preifat.

*Derbyn Arian Cyhoeddus*

19. Mae'r testun newydd a ychwanegwyd ar ddiwedd paragraff 5(ii) o'r Atodiad yn gweithredu argymhelliad 2 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gofrestru unrhyw arian cyhoeddus a dderbynnir.

20. Gwnaed sylwadau i'r Comisiynydd y dylai fod categori cofrestru ar gyfer 'derbyn arian cyhoeddus', ac ym marn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, roedd derbyn arian cyhoeddus yn faes pwysig yr oedd angen eglurhad yn ei gylch.

21. Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad y dylid cofrestru arian cyhoeddus a dderbynnir, ond nid oedd am iddo fod yn gategori unigol er mwyn osgoi dyblygu – ac roedd y Comisiynydd yn cytuno â'r farn honno. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddigonol cofrestru ffynhonnell arian cyhoeddus, yn hytrach nag unrhyw wybodaeth bellach fel y swm a dderbyniwyd. Bydd y canllawiau'n nodi'n glir mai dim ond ffynhonnell yr arian sydd angen ei chofrestru, ac nid y swm.

*Cyrff a Ariennir gan y Cynulliad neu sy'n Tendro ar gyfer Contractau*

22. Mae'r newid ym Mharagraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn gweithredu argymhelliad 8 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan olygu mai dim ond os bydd yr Aelod yn gwybod bod Comisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru yn ariannu corff penodol, neu os dylai fod wedi gwybod hynny, y bydd yn ofynnol cofrestru buddiant.

23. Yn yr un modd, mae'r diwygiad i Baragraff 5(v) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn gweithredu argymhelliad 4 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan olygu mai dim ond os bydd Aelod yn gwybod am dendr ar gyfer contract â Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu fod ganddo gontract o'r fath, y bydd yn ofynnol cofrestru buddiant.

24. Clywodd y Comisiynydd bryderon ei bod yn ofynnol i Aelodau gofrestru buddiannau o'r fath ar hyn o bryd, hyd yn oed os na fyddant, o bosibl, yn ymwybodol o'r cysylltiad â Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.

25. Cynigodd y Comisiynydd y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried a ddylid newid y Rheol Sefydlog i olygu mai dim ond pan fydd Aelod yn ymwybodol o dendr neu gontract y bydd yn ofynnol cofrestru buddiant. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod y gofyniad presennol yn annheg ac yn afresymegol gan na allai'r Aelod wybod bob amser os bydd cwmnïau y mae'r Aelod, partner yr Aelod, neu blentyn dibynnol yn cael tâl ganddo, yn tendro ar gyfer contractau â'r Cynulliad, neu'n meddu ar gontract o'r fath. Roedd yn cytuno hefyd mai dim ond os bydd yr Aelod yn gwybod am unrhyw gyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu y dylai fod wedi gwybod hynny, y dylai'r gofyniad i gofrestru aelodaeth neu gadeiryddiaeth fod yn berthnasol.

*Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad*

26. Roedd paragraff 79 o adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn nodi bod y Rheolau, mewn sawl categori, yn cyfeirio at y Cynulliad pan fyddai'n fwy priodol cyfeirio at Lywodraeth Cymru a/neu Gomisiwn y Cynulliad, ac awgrymwyd y dylid gwneud newidiadau ffurfiol i'r Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau.

27. Mae'r diwygiadau arfaethedig i baragraffau 5(v) a 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn dileu'r cyfeiriadau presennol at y Cynulliad er mwyn cyfeirio at Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.

*Datgan Buddiannau Perthnasol ar Lafar*

28. Mae'r Rheolau Sefydlog drafft newydd 13.8A, 13.8B, 17.24A a 17.24B yn gweithredu argymhelliad 12 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar ddatgan buddiannau perthnasol mewn cyfarfodydd llawn neu gyfarfodydd pwyllgor.

29. Yn ogystal ag ehangu cwmpas y datganiadau o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7, awgrymodd y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyflwyno gofyniad newydd yn y Rheolau Sefydlog, nad yw'n

destun cosb droseddol, bod Aelod yn gwneud datganiad ar lafar yn ystod trafodion y Cynulliad ynghylch unrhyw fuddiannau perthnasol sydd gan yr Aelod, neu aelod o deulu'r Aelod, neu y mae'n disgwyl eu cael mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi yn ystod y trafodion hynny. Yn yr achos hwn, ystyr 'unrhyw fuddiant perthnasol' yw buddiant yr ystyrir yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod i ddadl neu drafodaeth.

30. Derbyniodd y Rheolwyr Busnes yr argymhelliad hwn, gan gytuno y dylai unrhyw ddatganiad llafar gael ei wneud ar adeg briodol yn ystod y trafodion, yn hytrach nag ar ddechrau cyfraniad yr Aelod o reidrwydd.

31. Bydd y prawf o ran perthnasedd y datganiadau llafar hyn yn wahanol i ddatganiadau o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7, a bydd canlyniadau gwneud datganiad, neu beidio â gwneud hynny, yn wahanol hefyd. Mae cyflwyno'r Rheol Sefydlog newydd hon yn debygol o gynyddu'r achosion lle y mae'n ofynnol i Aelodau wneud datganiadau llafar yn ystod trafodion y Cynulliad. Er na fydd achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofyniad newydd hwn yn destun cosb droseddol, ac ni fydd datganiad yn arwain at gyfyngiadau o ran pleidleisio, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Safonau ymchwilio i unrhyw gŵyn a wneir ynghylch diffyg cydymffurfiaeth Aelod â'r gofynion newydd.

32. Bydd y canllawiau diwygiedig ar gofrestru a datgan buddiannau yn rhoi rhagor o gyngor i'r Aelodau o ran pryd y gall fod angen datganiad llafar, ond yn y pen draw, yr Aelodau fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylent wneud datganiad ai peidio.

33. Bydd y categori newydd o ddatganiadau llafar o fuddiant a gynigir yn argymhelliad 12 y Pwyllgor yn llwyr ar wahân i'r rhai sy'n ofynnol o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7, ac mae'r newidiadau arfaethedig yn nodi hynny'n glir.

*Aelodaeth Pwyllgorau*

34. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, mae'r diwygiad drafft i Reol Sefydlog 22.5 yn ymestyn yr amgylchiadau pan na chaiff Aelod gymryd rhan os bydd y Pwyllgor yn ystyried cwyn, i gynnwys achosion lle y mae'r Aelod wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r gŵyn mewn unrhyw ffordd, yn hytrach na dim ond achosion lle y mae'r Aelod yn destun cwyn. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mai'r Aelod yw'r achwynydd yn ogystal ag amgylchiadau eraill pan fyddai'n amhriodol i'r Aelod gymryd rhan wrth ystyried y gŵyn oherwydd cysylltiad uniongyrchol â'r gŵyn.

35. Mae Rheol Sefydlog ddrafft newydd 22.4 yn ei gwneud yn ofynnol bod eilydd wedi'i ethol gan bob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, i ddirprwyo ar ran aelod o'r pwyllgor nad yw'n cael cymryd rhan pan fo'r pwyllgor yn ystyried mater yn unol â Rheol Sefydlog 22.5. Mae Rheol Sefydlog ddiwygiedig 22.5 yn adlewyrchu hyn, fel y mae'r newid canlyniadol drafft i Reol Sefydlog 17.3.

## Camau gweithredu

36. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 19 Mai 2015, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiadau B a D.

37. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y newidiadau i Reolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dod i rym ar unwaith.

38. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y newidiadau i Reolau Sefydlog 2, 13 a 17 yn dod i rym ar 1 Medi 2015, mewn pryd ar gyfer tymor yr hydref. Byddai hyn yn rhoi amser i'r Comisiynydd Safonau a'r Cofrestrydd weithio gyda'r Aelodau i sicrhau bod y gofynion newydd yn cael eu gweithredu'n ddidrafferth.

39. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi gosod Canllawiau diwygiedig a Chod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ac mae'n gofyn i'r Cynulliad eu mabwysiadu drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn.

## Atodiad A

## Rheol Sefydlog 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

| **Rheol Sefydlog 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau** | |
|---|---|
| **Datgan Buddiannau <u>Cofrestradwy</u> cyn Cymryd Rhan mewn unrhyw Drafodion yn y Cynulliad** | **Diwygio'r is-bennawd**<br><br>Cynigir y newid er mwyn gwahaniaethu rhwng y datganiadau hyn a'r rhai a fydd bellach yn ofynnol o dan Reolau Sefydlog 13 a 17. |
| 2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy’n codi yn y trafodion hynny. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na’r fantais | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon.**<br><br>Mae'r newid hwn yn gweithredu argymhelliad 12 y Pwyllgor.<br><br>Ym marn y Comisiynydd, mae'n bosibl bod y diffiniad presennol yn rhy gyfyngedig, ac yn atal y cyhoedd, yn anfwriadol, rhag cael |

| | |
|---|---|
| a allai ddod i ran ~~y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt~~etholwyr yn gyffredinol. | gwybod am fuddiannau y dylid eu datgelu. Awgrymodd newid y prawf o ran perthnasedd i fantais *"a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol",* gan y byddai hynny'n cwmpasu achosion lle y mae Aelod yn rhan o grŵp lleiafrifol a fyddai'n cael budd o ddarn penodol o ddeddfwriaeth e.e. landlord yn trafod ac yn pleidleisio ar reoliadau rhentu.  Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cynnig y Comisiynydd yn ei adroddiad. |
| ~~**Cytundebau ar gyfer Darparu Gwasanaethau**~~ | **Dileu'r is-bennawd** |
| ~~2.12 Rhaid i unrhyw Aelod sydd wedi gwneud cytundeb, neu sy'n bwriadu gwneud cytundeb, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau yn rhinwedd ei swydd fel Aelod sicrhau bod y cytundeb:~~<br><br>~~(i) yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 2.8;~~<br><br>~~(ii) yn ysgrifenedig;~~<br><br>~~(iii) yn nodi natur y gwasanaethau sydd i'w darparu; a~~<br><br>(iv) ~~yn pennu'r tâl neu'r budd sydd i'w dderbyn.~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog**<br><br>Mae dileu'r Rheol Sefydlog hon yn gweithredu argymhelliad 9 y Pwyllgor. Nododd y Comisiynydd Safonau nad oes unrhyw gofrestriadau wedi'u gwneud o dan y Rheol Sefydlog hon hyd yma, a hefyd fod hon yn Rheol Sefydlog ddiangen, gan y byddai unrhyw gytundeb o'r fath yn gofrestradwy o dan benawdau eraill ym Mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2. |

| | |
|---|---|
| ~~2.13 Cyn gynted ag y gellir ar ôl gwneud cytundeb o'r fath, a chyn pen pedair wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw beth bynnag, rhaid i'r Aelod roi copi o'r cytundeb i'r Llywydd, a rhaid i'r copi fod yn agored i'w archwilio gan Aelodau eraill a chan y cyhoedd.~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog**<br><br>O ganlyniad i ddileu 2.12 uchod |

| | |
|---|---|
| RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau: Atodiad<br><br>**Y buddiannau sydd i'w cofrestru yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau ac sydd, at ddibenion Rheol Sefydlog 2.6, i'w datgan cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad.** | |
| **Cyffredinol** | **Caiff yr is-bennawd ei gynnwys er gwybodaeth** |
| 1. Wrth restru eu buddiannau cofrestradwy, dylai'r Aelodau roi sylw i unrhyw benderfyniadau, codau ymarfer neu nodiadau cyfarwyddyd perthnasol y gall y Cynulliad fod wedi'u mabwysiadu yn hyn o beth. | **Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth** |
| 2. Rhaid i unrhyw weithgarwch y ceir tâl amdano ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus a chynghori ac ymgynghori gwleidyddol mewn perthynas â swyddogaethau'r Cynulliad, gael ei gynnwys yn y rhan honno o'r gofrestr sy'n ymwneud â chyflogaeth, swydd neu broffesiwn am dâl. Mae'r cyfryw weithgarwch yn cynnwys unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o drafodion y Cynulliad, noddi digwyddiadau yn | **Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| | adeiladau'r Cynulliad, a chyflwyno sylwadau i'r llywodraeth neu i unrhyw aelod o'r llywodraeth honno neu i'w staff. | |
| 3. | Mae mwyafrif y buddiannau a bennir yn y categorïau isod yn cynnwys cyfeiriad at fuddiannau y meddir arnynt yn annibynnol gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod neu a roddir iddynt, a rhaid cofrestru'r rhain hefyd os yw'r buddiannau hynny yn hysbys i'r Aelod. | **Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth** |
| 4. | At ddibenion cofrestru a datgan buddiannau o dan Reol Sefydlog 2 a bennir yn yr Atodiad hwn:<br><br>(i) ystyr partner Aelod yw priod neu bartner sifil iddo neu un o gwpl, pa un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall, sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod; a<br><br>(ii) ystyr plentyn dibynnol yw unrhyw berson sydd, pan gofrestrir y buddiant, yn iau nag un ar bymtheng mlwydd oed neu yn iau na phedair ar bymtheng mlwydd oed ac yn derbyn addysg llawn amser drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig ac:<br>(a) sy'n blentyn i'r Aelod; | **Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth** |

| | |
|---|---|
| (b) sy'n llysblentyn i'r Aelod drwy briodas neu drwy bartneriaeth sifil;<br><br>(c) sy'n blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol gan yr Aelod;<br><br>(ch) sy'n blentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu yn gyfreithiol; neu<br><br>(d) sy'n blentyn y bu'r Aelod yn ei gefnogi yn ariannol am o leiaf y chwe mis calendr blaenorol. | |
| **Y Buddiannau Cofrestradwy** | **Cadw'r is-bennawd hwn** |
| 5. Dyma'r buddiannau cofrestradwy:<br><br>(i) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp; | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon** |

| | |
|---|---|
| (ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o’r Cynulliad) y mae’r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod ~~neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod~~ yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheg mlwydd oed, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus;<br><br>(iii) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy’n hŷn nag un ar bymtheng mlwydd oed, sy’n deillio o’i aelodaeth o’r Cynulliad, neu sy’n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;<br><br>(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na’r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y | Mae dileu'r geiriau yn 5(ii) yn gweithredu argymhelliad 1 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ddileu'r gofyniad i gofrestru cyflogaeth y mae plentyn dibynnol yn cael tâl amdano. Nid yw'r gofyniad i gofrestru buddiannau ariannol eraill plentyn dibynnol wedi newid.<br><br>Mae'r testun newydd a ychwanegwyd ar ddiwedd 5(ii) yn gweithredu argymhelliad 2 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Bydd y canllawiau yn nodi'n glir mai dim ond ffynhonnell yr arian sydd angen ei chofrestru, ac nid y swm.<br><br>Ychwanegwyd y geiriau ‘sy’n hŷn nag un ar bymtheg mlwydd oed er mwyn cywiro anghysondeb hanesyddol yn y Rheolau Sefydlog rhwng y Gymraeg a’r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o’r Cynulliad neu’n sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd; | |
| (v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae’r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd, hyd y gŵyr yr Aelod, wedi tendro, neu sy’n tendro, am gontract gyda~~’r~~ Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o’r fath; | Mae'r diwygiad i 5(v) yn gweithredu argymhelliad 4 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan olygu mai dim ond os bydd Aelod yn gwybod am dendr ar gyfer contract y bydd yn ofynnol cofrestru buddiant.<br><br>Roedd paragraff 79 o adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn nodi bod y Rheolau, mewn sawl categori, yn cyfeirio at y Cynulliad pan fyddai'n fwy priodol cyfeirio at Lywodraeth Cymru a/neu Gomisiwn y Cynulliad, ac awgrymwyd y dylid gwneud newidiadau ffurfiol i'r Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau. Mae'r testun newydd ar ddiwedd 5(v) yn gweithredu hyn. |
| (vi) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i’w ethol i’r Cynulliad, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o’r Cynulliad oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o’r fath, rhaid i’r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o’r fath yn cynnwys unrhyw daliad i’r Aelod neu unrhyw fudd | |

| | |
|---|---|
| materol neu fantais faterol;<br><br>(vii) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Cynulliad neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae'r Cynulliad yn aelod ohono;<br><br>(viii) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod; | |

| | |
|---|---|
| (ix) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad; | |
| (x) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, lle y mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru. | Mae'r newid i 5(x) yn gweithredu argymhelliad 8 y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan olygu mai dim ond os bydd Aelod yn gwybod bod y Cynulliad wedi ariannu corff, neu y dylai fod wedi gwybod hynny, y bydd yn ofynnol cofrestru buddiant.<br><br>Roedd paragraff 79 o adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn nodi bod y Rheolau, mewn sawl categori, yn cyfeirio at y Cynulliad pan fyddai'n fwy priodol cyfeirio at Lywodraeth Cymru a/neu Gomisiwn y Cynulliad, ac awgrymwyd y dylid gwneud newidiadau ffurfiol i'r Rheolau Sefydlog a'r Canllawiau. Mae'r testun newydd ar ddiwedd 5(v) yn gweithredu hyn. |

| RHEOL SEFYDLOG 13 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn | |
|---|---|
| **Datgan Buddiannau Perthnasol** | **Mewnosod is-bennawd newydd** |
| 13.8A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd yn gweithredu argymhelliad 13 y Pwyllgor mewn perthynas â datganiadau llafar o fuddiant yn y Cyfarfod Llawn. |
| 13.8B Nid yw Rheol Sefydlog 13.8A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd yn nodi'n glir bod y ddarpariaeth newydd yn Rheol Sefydlog 13 ar wahân i'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 2.6 ac yn ychwanegol atynt. |

| RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau | |
|---|---|
| **Datgan Buddiannau Perthnasol** | **Mewnosod is-bennawd newydd** |
| 17.24A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd** |

| | |
|---|---|
| sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. | Mae'r Rheol Sefydlog newydd yn gweithredu argymhelliad 13 y Pwyllgor mewn perthynas â datganiadau llafar o fuddiant yn y pwyllgorau. |
| 17.24B Nid yw Rheol Sefydlog 17.27A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd yn nodi'n glir bod y ddarpariaeth newydd yn Rheol Sefydlog 17 ar wahân i'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 2.6 ac yn ychwanegol atynt. |

**Atodiad B**

**RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau**

**Datgan Buddiannau Cofrestradwy cyn Cymryd Rhan mewn unrhyw Drafodion yn y Cynulliad**

2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy’n codi yn y trafodion hynny.

2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na’r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol.

**Lobïo am Dâl neu Gydnabyddiaeth**

2.8 Rhaid i Aelod beidio â chychwyn na dadlau o blaid unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o’r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael.

**Gwahardd Pleidleisio**

2.9 Os yw'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 2.6 i Aelod ddatgan buddiant mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i'r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn y trafodion hynny. Nid yw Rheol Sefydlog 2.9 yn gymwys mewn perthynas ag arfer pleidlais fwrw o dan Reol Sefydlog 6.20.

**RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau: Atodiad**

**Y Buddiannau Cofrestradwy**

5. Dyma'r buddiannau cofrestradwy:

(i) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp;

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheg mlwydd oed, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus;

(iii) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn cynnwys gwasanaethau gan

yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheng mlwydd oed, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad, neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o'r Cynulliad neu'n sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd, hyd y gŵyr yr Aelod, wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath;

(vi) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i'w ethol i'r Cynulliad, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o'r Cynulliad oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol;

(vii) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy’n deillio o’i aelodaeth o’r Cynulliad neu sy’n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o’r fath wedi’i dalu’n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Cynulliad neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae’r Cynulliad yn aelod ohono;

(viii) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y’i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod;

(ix) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu’n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad;

(x) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr

Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, lle y mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.

## RHEOL SEFYDLOG 13 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn

### Datgan Buddiannau Perthnasol

13.8A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

13.8B Nid yw Rheol Sefydlog 13.8A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6.

## RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau

### Datgan Buddiannau Perthnasol

17.24A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

17.24B Nid yw Rheol Sefydlog 17.27A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6.

## Atodiad C

## Rheol Sefydlog 22 – Safonau Ymddygiad

| Rheol Sefydlog 22 – Safonau Ymddygiad | |
|---|---|
| **Aelodaeth** | **Cadw'r is-bennawd hwn** |
| 22.3 Rhaid i'r Llywydd beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor cyfrifol, ond mae gan y Llywydd hawl i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw ystyriaethau y mae'r Llywydd yn credu eu bod yn briodol. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 22.4 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 22.5, ni chaniateir i Reol Sefydlog 17.48 fod yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| <u>22.4A Rhaid i'r Cynulliad ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 22.5.</u> | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd yn golygu bod yn rhaid i'r Cynulliad ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor. Byddai hyn fel arfer yn digwydd ar adeg ethol yr Aelodau eu hunain, ond ar ôl newid y Rheolau Sefydlog, byddai modd i'r Cynulliad ystyried |

| | |
|---|---|
| | un cynnig i ethol yr holl eilyddion. |
| 22.5 Os bydd aelod o'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i), neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, ac mewn perthynas â'r ystyriaeth ar y gŵyn o dan sylw yn unig, caiff ~~Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol, sydd wedi'i enwebu ymlaen llaw gan y grŵp hwnnw,~~ eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw. Caiff yr ~~Aelod a enwebwyd~~eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r pwyllgor. ~~Ni chaiff Aelod gymryd lle mwy nag un aelod o'r pwyllgor cyfrifol mewn cyfarfod.~~ | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon.**<br><br>Yn unol ag argymhellion y pwyllgor, mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig yn ymestyn yr amgylchiadau lle na chaiff Aelod gymryd rhan pan fo pwyllgor yn ystyried cwyn i gynnwys achosion pan fo'r Aelod wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r gŵyn mewn unrhyw ffordd, yn hytrach na dim ond pan fo'r Aelod yn destun cwyn. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle y mae'r Aelod yn achwynydd yn ogystal ag amgylchiadau eraill pan fyddai'n amhriodol i'r Aelod gymryd rhan wrth ystyried y gŵyn oherwydd cysylltiad uniongyrchol â'r gŵyn.<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y bydd yr eilydd, yn y dyfodol, yn gallu cymryd lle Aelod na chaiff gymryd rhan, yn hytrach na dirpwy enwebedig.<br><br>Dileer y frawddeg olaf gan ei bod bellach yn ddiangen, gan fod y darpariaethau diwygiedig yn gwneud yr amod a geir ynddi yn anochel. |

## Diwygiadau Canlyniadol

| Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau | |
|---|---|
| **Aelodaeth Pwyllgorau** | **Cadw'r is-bennawd hwn.** |
| 17.3 Rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno aelodaeth a chadeirydd pob pwyllgor a sefydlir drwy benderfyniad gan y Cynulliad<u>, ac eilyddion ar gyfer y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22.</u> | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon.**<br>Mae'r newid hwn yn ganlyniadol i'r rhai a wnaed i Reol Sefydlog 22, ac mae'n caniatáu i eilyddion gael eu hethol ar gyfer Aelodau'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22 (y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar hyn o bryd). |

**Atodiad D**

**Rheol Sefydlog 22 – Safonau Ymddygiad**

**Aelodaeth**

22.3 Rhaid i'r Llywydd beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor cyfrifol, ond mae gan y Llywydd hawl i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw ystyriaethau y mae'r Llywydd yn credu eu bod yn briodol.

22.4 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 22.5, ni chaniateir i Reol Sefydlog 17.48 fod yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol.

22.4A Rhaid i'r Cynulliad ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 22.5.

22.5 Os bydd aelod o□'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i), neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, ac mewn perthynas â'r ystyriaeth ar y gŵyn o dan sylw yn unig, caiff yr eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw. Caiff yr eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor.

**Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau**

**Aelodaeth Pwyllgorau**

17.3 Rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno aelodaeth a chadeirydd pob pwyllgor a sefydlir drwy benderfyniad gan y Cynulliad, ac eilyddion ar gyfer y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 22.

17.4 Wrth gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes roi sylw i'r angen i sicrhau bod cydbwysedd y cadeiryddion ar draws y pwyllgorau yn adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt.

17.5 Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig o dan Reol Sefydlog 17.3.

17.6 Ni chaniateir i gynnig i gytuno aelodaeth pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.3 gael ei basio oni bai:

(i) bod yr aelodaeth (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol) yn adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt; a

(ii) (os caiff y cynnig ei basio drwy bleidlais), fod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn ei gefnogi.

17.7 Os nad yw cynnig i gytuno aelodaeth pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.3 yn cael ei basio:

(i) rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i bennu:

  (a) maint y pwyllgor; a

  (b) y grŵp gwleidyddol y mae'r cadeirydd sydd i'w benodi yn perthyn iddo; a

(ii) rhaid i'r lleoedd ar y pwyllgor hwnnw gael eu dyrannu yn unol â gweithredu adrannau 29(3) i (7) o'r Ddeddf fel y'u haddaswyd yn unol â Rheol Sefydlog 17.8.

17.8 Mewn perthynas ag unrhyw le ar bwyllgor sydd i'w ddyrannu yn unol ag adrannau 29(3) i (7) o'r Ddeddf:

(i) os yw nifer yr Aelodau sy'n perthyn i ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un fath a'i fod yn fwy na'r nifer sy'n perthyn i unrhyw grŵp gwleidyddol arall; neu

(ii) os yw'r nifer a geir drwy ddefnyddio adran 29(6) o'r Ddeddf yr un fath ar gyfer dau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a'i fod yn fwy na'r nifer a geir fel hyn ar gyfer unrhyw grŵp gwleidyddol arall,

rhaid i'r Llywydd benderfynu i ba grŵp gwleidyddol y mae'r lle hwnnw i'w ddyrannu.

17.9 Os yw'r lleoedd ar unrhyw bwyllgor i'w dyrannu i grŵp gwleidyddol yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 neu 17.7, mater i'r grŵp gwleidyddol hwnnw yw pennu enwau:

(i) yr Aelodau a ddyrennir o'r grŵp; a

(ii) y cadeirydd, pan fydd y grŵp gwleidyddol hwnnw yn dal y gadair.

17.10 Rhaid i unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 neu 17.7 (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o roi sylw i gyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau) sicrhau:

(i) bod pob Aelod nad yw'n perthyn i grŵp gwleidyddol yn cael cynnig lle ar un pwyllgor o leiaf; a

(ii) bod cyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau a ddyrennir i Aelodau sy'n perthyn i bob grŵp gwleidyddol o leiaf yr un mor fawr â nifer yr Aelodau sy'n perthyn i'r grŵp gwleidyddol.

17.11 Mae swydd wag yn codi ar bwyllgor pan fydd Aelod:

(i) yn ymddiswyddo o'r pwyllgor drwy hysbysu'r Pwyllgor Busnes;

(ii) yn cael ei ddiswyddo o'r pwyllgor drwy benderfyniad gan y Cynulliad;

(iii) yn peidio â bod yn Aelod; neu

(iv) yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.12.

17.12 Mae Aelod yn peidio â bod yn aelod o bwyllgor os yw'n ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n ymadael ag ef.

17.13 Pan fydd swydd wag yn codi ar bwyllgor, mae'r Pwyllgor Busnes:

(i) yn gorfod ystyried effaith y swydd wag honno ar aelodaeth y pwyllgor hwnnw ac unrhyw bwyllgor arall;

(ii) o roi sylw i'r ystyriaeth honno, yn gorfod cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i gynnig newid aelodaeth y pwyllgor y cododd y swydd wag arno; a

(iii) o roi sylw i'r ystyriaeth honno, yn cael cyflwyno hefyd un neu fwy o gynigion o dan Reol Sefydlog 17.3 i gynnig newid aelodaeth unrhyw bwyllgor arall.

17.14 Os bydd grŵp gwleidyddol yn hysbysu'r Pwyllgor Busnes ei fod yn dymuno newid ei gynrychiolaeth ar bwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig er mwyn gweithredu hynny.

17.15 Os llenwi'r swydd wag ag Aelod o'r un grŵp gwleidyddol yw unig effaith cynnig y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 17.13(ii) neu 17.14, nid yw Rheol Sefydlog 17.6(ii) yn gymwys.

17.16 Rhaid i unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan Reolau Sefydlog 17.6 a 17.10 gael ei benderfynu gan y Llywydd.